**CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL**

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm**, **Dydd Mawrth 18 Mehefin 2024**

**Yn bresennol:** Cyng. Celfyn Furlong – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Sharon Parry, Evan Wyn Robertson, Einir Thomas a Gareth Thomas.

**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol.

1. **Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Siân Enfys Jones, Dyfed Williams a Ken Taylor - Cynghorydd Sir.

2. **Datganiad o Ddiddordeb** –
Cyng. Gwilym O. Jones a Gordon Owen yn datgan diddordeb personol yn eitem 4.3 Neuadd y Pentref, Caergeiliog.
Cyng. Einir Thomas yn datgan diddordeb personol yn eitem 5.1.
Cyng. Celfyn Furlong yn datgan diddordeb rhagfarnol yn eitem 5.3 a gadawodd y cyfarfod cyn unrhyw drafodaeth ar y cais.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 21 Mai 2024 fel rhai cywir. (Cynnig Cyng. S. Parry, eilio Cyng. W.V. Owen.)

4. **Materion yn codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Dderbyniwyd E-bost a gan GMS Ground Maintenance ar 11 Mehefin 2024 yn hysbysu'r Cyngor y byddent yn rhoi'r gorau i dorri'r cae chwarae o 1 Gorffennaf 2024. Gan ei bod yn rhy fyr rybudd i gyhoeddi rhybudd tendr roedd y clerc wedi mynd at y ddau gontractwr oedd wedi dangos diddordeb o'r blaen ac roedd S. Wharton eisoes wedi dyfynnu £90 am bob toriad. Cytunwyd i ofyn iddo dorri'r cae am weddill y tymor presennol ar yr amod mai ef oedd y rhatafaf o'r ddau.

4.2 Diffibriliwr - roedd y clerc yn aros am ymateb gan CSYM ar ba un o'r ddau opsiwn naill ai 1. Postyn wedi'i galfaneiddio neu 2. 'Hoop bar mount oedd y mwyaf addas.

4.3 Neuadd y Pentref: Roedd y Clerc yn aros i'r brydles gael ei llunio.

4.4 Llwybrau: cafwyd E-bost gan CSYM ynghylch y gordyfiant ar lwybr troed 21/004/1 wrth Eglwys y Santes Fair. Byddai'r clerc yn gofyn i'r contractwr roi sylw i hwn. Adroddwyd hefyd bod cryn dipyn o waith atgyweirio wedi ei wneud ar Lwybr Troed 20 – h.y. y llwybr rhwng yr Eglwys a Llyn Traffwll yr adroddwyd amdano fis diwethaf.

4.5 Unrhyw fater arall sy'n codi o'r cofnodion:
Tynnodd Cyng. Furlong sylw at y ffaith nad oedd y marciau ffordd wedi'u hadfer ar yr A5 ar ôl cwblhau'r gwaith ceblau ar gyfer y Fferm Solar – CSYM i'w hysbysu.

**5. Ceisiadau Cynllunio:**

5.1 **S106/2024/3 Gwesty'r Cymyran, Llanfair-yn-Neubwll.**
Cais ar gyfer dileu Cytundeb Adran 106 o ganiatad cynllunio 32C17N/ENF er mwyn caniatáu i Gwesty Cymyran gael ei werthu fel busnes ar wahân i Refail a'r 5 uned wyliau - dim arsylwadau, bydd y swyddogion cynllunio yn ystyried y polisïau perthnasol.

5.2 **HHP/2024/102 Bwthyn Ceirios, Caergeiliog.**
Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu - Dim gwrthwynebiad i'r estyniad arfaethedig. Fodd bynnag, roedd pryderon am y diffyg parcio ar y safle a lle i storio offer a deunyddiau. Roedd yr Adran Priffyrdd yn ymwybodol o'r nifer o gwynion a dderbyniwyd am y gorlif o gerbydau o'r eiddo i'r gifan gyfagos. Bu adegau pan nad oedd modd hyd yn oed symud y cerbydau hyn - roedd hyn yn awgrymu bod y gilfan yn cael ei defnyddio fel lle parcio atodol ar gyfer y busnes a weithredir o'r eiddo. Felly, byddai'r Cyngor Cymuned yn dadlau na ddylid cymeradwyo'r cais hwn heb i'r ymgeisydd ddangos yn glir y gellid cynnwys pob cerbyd, offer a deunydd sy'n gysylltiedig ag adeiladu neu fel arall yn ddiogel o fewn ffin yr eiddo. Dylid cael cynllun manwl o'r mannau parcio sydd ar gael o fewn y cwrtil.

**FPL/2024/119 Bryn Ednyfed, Caergeiliog.**
Cais llawn ar gyfer dymchwel cwt moch gwag ac adeiladu uned llety gwyliau hunanarlwyo – dim gwrthwynebiad.

**6. Penderfyniadau Cynllunio:-**

HHP/2024/4 Tŷ Newydd, Llanfair yn Neubwll – Gwrthodwyd

**7. Materion Ariannol**
Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.5.2024 i 31.5.2024 ynghyd â chysoniadau, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.
Cyfrif cyfredol £ 29,692.08, Cyfrif Cadw £ 4022.11.

7.1 Cyfrifon.
Dywedodd y clerc y byddai'r cyfrifon yn barod i'w casglu gan yr Archwilydd Mewnol y diwrnod canlynol. Cytunwyd felly i gynnal Cyfarfod Cyffredin Ychwanegol ar ôl i'r Aelodau gael cyfle i weld adroddiad yr Archwilydd.

**8.** Taliadau: wedi'u nodi / cytuno.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Mai) | £423.84 | GMS Ground Maintenance | £180 |
| Arolygiad Cae Chwarae | £48.80 | Torri llwybrau troed | £390 |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

**9. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

9.1 Cau Ffyrdd Dros Dro - Lon Alltwen, Llanfihangel yn Nhowyn

9.2 Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn (2024 – 2039): Cytundeb Cyflawni Drafft Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn (y cynllun newydd) (llyw.cymru)

9.3 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Cynghorau Cymuned a Thref - Lwfansau Cynghorwyr

9.4 Canllawiau ar weithio'n ddigidol

9.5 Amserlen Camau Cyn Etholiad

**10. Adroddiadau Aelodau** - dim.

**11. Cyfarfod nesaf 16 Gorffennaf 2024.**

: